Ysgol Plas Coch
Ffordd Stansty
Wrecsam
LL11 2BU
Ffôn: 01978 311198
Ffacs: 01978 311198

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

YSGOL PLAS COCH

Mr Osian Jones BA
***Pennaeth* Head Teacher**

E-bost/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**

Mawrth 6ed 2018

Eisteddfod Rhanbarth yr Urdd

Annwyl rieni,

Cynhelir Eisteddfod Sir yr Urdd **dydd Sadwrn yma, Mawrth 10fed yn Ysgol Gwynedd, Fflint (CH6 5DL).** Efo'r llythyr hwn, mae yna gopi o amserlen y rhagbrofion a rhaglen yr eisteddfod. Bydd uchafswm o 8 yn cystadlu ym mhob rhagbrawf a bydd tri yn mynd ymlaen o bob rhagbrawf i'r llwyfan yn y prynhawn. Bydd y cyntaf ym mhob cystadleuaeth yn y prynhawn yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanfair y Muallt ddiwedd Mai.

Tra bod amseroedd y rhagbrofion yn bendant, canllaw yn unig yw amseroedd y prynhawn, felly os yw'ch plentyn yn cael llwyfan i'r prynhawn, sicrhewch eich bod yn y neuadd / man ymgynnull mewn digon o amser cyn y gystadleuaeth. Unwaith eto, gofynwn i'r plant wisgo eu gwisg ysgol i gystadlu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, yna cysylltwch â'r ysgol. Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth a'ch amser unwaith eto i weithgareddau'r Urdd.

Gyda diolch,

Osian Jones